# Arolygiad o Bractis Deintyddol Cyffredinol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

## Bwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro,

## Smiles Oasis Dental Care

Dyddiad arolygu: 24 Tachwedd 2016

Dyddiad cyhoeddi: 27 Chwefror 2017

Gellir darparu’r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.
Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o’r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:


**Rheolwr Cyfathrebu**
**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**
**Llywodraeth Cymru**
**Parc Busnes Rhyd-y-car**
**Merthyr Tudful**
**CF48 1UZ**


Neu drwy


**Ffôn**:0300 062 8163
**E-bost**: hiw@wales.gsi.gov.uk
**Ffacs:** 0300 062 8387
**Gwefan:** www.hiw.org.uk



ISBN Digidol 978-1-4734-8433-7


© Hawlfraint y Goron 2017

# Cynnwys


1. Introduction ........................................ 2

2. Context ........................................ 3

3. Summary ........................................ 4

4. Findings ........................................ 5

   Quality of the Patient Experience ........................................ 5

   Delivery of Safe and Effective Care ........................................ 8

   Quality of Management and Leadership ........................................ 14

5. Next Steps ........................................ 15

6. Methodology ........................................ 16

   Appendix A ........................................ 18

# 1. Cyflwyniad

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw’r arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer yr holl ofal iechyd yng Nghymru.

Mae prif bwyslais AGIC ar:

- Wneud cyfraniad at y gwaith o wella diogelwch ac ansawdd gwasanaethau gofal iechyd yng Nghymru
- Gwella profiad dinasyddion o ofal iechyd yng Nghymru boed hynny fel claf, defnyddiwr gwasanaeth, gofalwr, perthynas neu gyflogai
- Atgyfnerthu llais cleifion a'r cyhoedd yn y modd y caiff gwasanaethau iechyd eu hadolygu
- Sicrhau bod gwybodaeth amserol, ddefnyddiol, hygyrch a pherthnasol am ddiogelwch ac ansawdd gofal iechyd yng Nghymru ar gael i bawb.

Cwblhaodd AGIC arolygiad o Smiles Oasis Dental Care, 68A Heol Ddwyreiniol y Bont-faen, Treganna, Caerdydd, CF11 9DN ar 24 Tachwedd 2016.

Gwnaeth AGIC archwilio sut roedd Smiles Oasis Dental Care yn bodloni’r safonau gofal a nodir yn y Safonau Iechyd a Gofal (Ebrill 2015) a deddfwriaeth a chanllawiau perthnasol eraill.

Cynhelir arolygiadau deintyddol ar ôl rhoi rhybudd, ac rydym yn ystyried ac yn adolygu’r meysydd canlynol:

- Ansawdd profiad y claf – Rydym yn siarad â chleifion (oedolion a phlant), eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eiriolwyr er mwyn sicrhau bod safbwynt y cleifion yn ganolog i'n dull arolygu.
- Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol – Rydym yn asesu i ba raddau mae gwasanaethau’n darparu gofal diogel a dibynadwy o safon uchel sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.
- Ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth – Rydym yn ystyried sut mae gwasanaethau yn cael eu rheoli a'u harwain a ph'un a yw'r diwylliant yn ffafrio darparu gofal diogel ac effeithiol. Rydym hefyd yn ystyried sut y mae byrddau iechyd yn adolygu a monitro eu perfformiad eu hunain yn erbyn safonau a chanllawiau perthnasol.

Mae rhagor o fanylion am ein methodoleg ar gael yn Adran 6 yr adroddiad hwn.

## 2. Cyd-destun

Smiles Oasis Dental Care provides services to patients in the Cardiff area. The practice forms part of dental services provided within the area served by Cardiff and Vale University Health Board.

Mae Smiles Oasis Dental Care yn bractis cymysg sy’n darparu gwasanaethau deintyddol preifat a gwasanaethau deintyddol y GIG.

Roedd tîm mawr o staff yn y practis (a rhai ohonynt yn gweithio rhan amser), sy'n cynnwys saith deintydd, dau hylenydd, naw nyrs ddeintyddol, dau dderbynnydd ac un rheolwr practis.

Darperid amrywiaeth o wasanaethau'r GIG/preifat.

## 3. Crynodeb

Ar y cyfan, roeddem yn fodlon bod y practis yn diwallu'r safonau angenrheidiol er mwyn darparu gofal diogel ac effeithiol. Fodd bynnag, gwnaethom nodi nifer o feysydd yr oedd angen eu gwella.

Gwelsom fod y practis yn gwneud y canlynol yn dda:

- Roedd y cleifion yn fodlon ar y gwasanaeth a ddarperir
- Roedd y tîm staff yn gyfeillgar, yn groesawgar ac yn ymroddedig i ddarparu gofal o safon uchel
- Roedd cyfarpar digonol yn y cyfleusterau clinigol ac roeddent yn lân yn gyffredinol
- Roedd offerynnau deintyddol yn cael eu glanhau a'u sterileiddio yn y modd priodol
- Roedd trefniadau ar waith ar gyfer defnyddio sganiau pelydr-X yn ddiogel.

Rydym yn argymell y gallai'r practis wella'r canlynol:

- Diweddaru gwybodaeth ar y wefan yn unol â chanllawiau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer hysbysebu
- Sicrhau bod gwiriadau diogelu a hyfforddiant diweddaru yn gyfredol
- Cynnal a chadw tystiolaeth o wiriadau imiwneiddio cyfnodol
- Gweithredu a chynnal amserlenni glanhau trwyadl mewn rhai mannau a rhoi sylw i waith adfer i gabinetau mewn ystafelloedd triniaeth ac un gadair ddeintyddol a stôl
- Diweddaru asesiadau risg
- Cofnodion cleifion
- Trefniadau sicrhau ansawdd cadarnach.

## 4. Canfyddiadau

### *Ansawdd Profiad y Claf*

**Gwelsom dystiolaeth bod y practis yn ymroddedig i roi profiad cadarnhaol i'w gleifion. Roedd y rhan fwyaf o'r adborth a gafwyd trwy ein holiaduron i gleifion yn gadarnhaol. Roedd gan y practis system ar gyfer casglu adborth gan gleifion fel modd o asesu ansawdd y gwasanaeth a ddarperir.**

Cyn yr arolygiad, gofynnwyd i'r practis ddosbarthu holiaduron AGIC i gleifion i gael eu barn am y gwasanaethau deintyddol a ddarperir. Cwblhawyd a dychwelwyd cyfanswm o 20 holiadur. Nododd y rhan fwyaf o'r cleifion eu bod wedi derbyn croeso a'u bod yn fodlon ar y gwasanaethau a dderbyniwyd yn y practis. Roedd sylwadau cleifion yn cynnwys:

> "Rwy'n hapus iawn yn y practis hwn. Bûm yn glaf yma ers pedair blynedd a hanner"

> "Rwyf yn hapus yn y practis yn gyffredinol. Mae'r derbynnydd yn gwrtais iawn ac yn rhoi gwybod imi os yw'r deintydd yn rhedeg yn hwyr. Yr unig broblem yw'r llinell ffôn, sy'n brysur bob amser"

> "Rwyf wirioneddol yn hapus yn y practis hwn; rwy'n hoffi pob aelod o'r staff ac yn gwerthfawrogi'r cymorth. Er hynny, mae'r deintyddion yn rhedeg yn hwyr, ond rwy'n cael ymddiheuriad"

> "Mae ein deintydd yn broffesiynol iawn ac mae wedi rhoi cyngor da i ni ynglŷn â sut i ofalu'n well am ein dannedd. Hapus iawn gyda'r practis deintyddol hwn"

<u>Gofal gydag urddas</u>

Gwelsom dystiolaeth oedd yn dangos bod cleifion yn derbyn gofal mewn modd urddasol a pharchus. Roedd lle ar gael i staff gael sgyrsiau â chleifion mewn man preifat i ffwrdd o gleifion eraill, pe bai angen, er mwyn cynnal cyfrinachedd.

Gwelsom staff yn siarad â chleifion mewn modd cyfeillgar a phroffesiynol. Roedd adborth gan y rhan fwyaf o'r cleifion a gwblhaodd holiaduron AGIC yn gadarnhaol, gyda chleifion yn datgan eu bod yn fodlon ar y gofal a'r driniaeth roeddent yn eu derbyn yn y practis, a dywedodd yr holl gleifion eu bod yn cael croeso gan y staff.

Roedd ystod o wybodaeth am y practis yn cael ei harddangos ac roedd taflenni ar gael ar gyfer cleifion. Gwelsom fod rhestr brisiau o'r triniaethau ar gael fel bod cleifion yn cael eu hysbysu am gostau. Gwelsom fod y drysau i'r ystafelloedd triniaeth (lle'r oedd cleifion yn derbyn gofal ar ddiwrnod ein harolygiad) wedi'u cadw ar gau i gynnal preifatrwydd ac urddas.

Gofal amserol

Gwnaeth y practis bob ymdrech i sicrhau bod gofal yn cael ei ddarparu mewn modd amserol. Fodd bynnag, dywedodd naw allan o'r 20 o bobl a ymatebodd i'r holiaduron nad oeddent yn sicr o ran y trefniadau pe bai argyfwng y tu allan i oriau, er bod yr wybodaeth wedi'i nodi ar wefan y practis ac wrth fynedfa'r ystafell driniaeth.

Dywedodd naw allan o'r 20 o bobl a ymatebodd i'r holiaduron eu bod nhw wedi profi oedi cyn cael eu gweld, a nododd rhai o'r rheiny eu bod nhw wedi cael ymddiheuriad a/neu esboniad am yr oedi. Argymhellir i'r practis adolygu'r prosesau cyfathrebu sydd ar waith er mwyn i'r holl gleifion gael eu hysbysu ynghylch unrhyw oedi posibl.

Cadw’n iach

Mae gwybodaeth hyrwyddo iechyd yn gymorth i gefnogi cleifion i gymryd cyfrifoldeb dros eu hiechyd a'u lles eu hunain. Dywedodd y mwyafrif o'r cleifion a gwblhaodd yr holiaduron wrthym eu bod wedi derbyn digon o wybodaeth am eu triniaeth. Roedd taflenni gwybodaeth a hybu iechyd ar gael i gleifion yn y man aros.

Gofal unigol

Gwelsom dystiolaeth bod gan y practis system ar gyfer casglu adborth gan gleifion. Roedd holiaduron i gleifion yn cael eu dosbarthu ac roedd y canlyniadau'n cael eu trosglwyddo i reolwr y practis ac yn cael eu hadolygu. Gwelsom fod gwybodaeth am bris triniaeth y GIG a thriniaeth breifat ar gael, fel bod cleifion yn cael eu hysbysu am gostau.

Gwelsom fod gan y practis weithdrefn ysgrifenedig ar gyfer ymdrin â phryderon (cwynion) am driniaeth ddeintyddol y GIG a thriniaeth ddeintyddol breifat. Gwelsom fod y weithdrefn yn cydymffurfio â'r trefniadau ynghylch nodi pryderon am driniaeth y GIG (a adnabyddir fel 'Gweithio i Wella') a Rheoliadau

Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008.[1] Rheolwr y practis oedd y rheolwr cwynion penodedig. Roedd gweithdrefnau cwyno'r practis wedi'u nodi ag arwyddion ar ei wefan, ar yr hysbysfwrdd, ac ar gael wrth ddesg y dderbynfa. Roedd hyn yn golygu bod cleifion yn gallu dod o hyd i'r wybodaeth hon yn hawdd pe bai angen.

Ar ddiwrnod yr arolygiad, gwnaeth y staff sicrhau bod manylion y deintyddion a oedd yn gweithio yno, a oedd yn cael eu dangos yn allanol, yn gyfredol. Fodd bynnag, mae angen i'r manylion ar wefan y practis, er enghraifft mewn perthynas â deintyddion sy'n gweithio yn y practis, gael eu hadolygu a'u diweddaru i sicrhau bod gan gleifion fynediad at wybodaeth gywir.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Mae'n rhaid i'r staff adolygu gwefan y practis i sicrhau bod gan gleifion yr wybodaeth ddiweddaraf yn unol â chanllawiau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer hysbysebu.***

---

[1] Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011.

## *Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol*

**Ar y cyfan, gwelsom dystiolaeth bod y practis yn darparu gofal deintyddol diogel ac effeithiol ar gyfer cleifion. Roedd gwastraff clinigol yn cael ei drin, ei storio a'i waredu mewn modd diogel. Roedd digon o gyfarpar yn y cyfleusterau clinigol ac roeddent i'w gweld yn lân ac yn daclus yn gyffredinol. Fodd bynnag, canfuom fod rhai mannau yr oedd angen eu glanhau'n drwyadl.**

**Roeddem yn fodlon ar y trefniadau a oedd ar waith er mwyn diogelu cleifion a staff rhag heintiau ataliadwy cysylltiedig â gofal iechyd. Fodd bynnag, mae angen i'r practis sicrhau bod tystiolaeth o frechiadau imiwneiddio cyfnodol yn cael ei chadw ar gyfer yr holl staff perthnasol. Roedd trefniadau ar waith i sicrhau bod offer pelydr-X yn cael eu defnyddio mewn modd diogel. Roedd cyfarpar dadebru a chyffuriau brys ar gael yn y practis, ac roedd systemau ar waith i helpu i sicrhau eu bod yn ddiogel i'w defnyddio.**

**Gwelsom fod y practis wedi cymryd camau i helpu i ddiogelu iechyd, diogelwch a llesiant y staff a'r cleifion. Fodd bynnag, roedd angen adolygu a diweddaru rhai o'r asesiadau risg.**

**Roedd y practis wedi cymryd camau i hyrwyddo ac i ddiogelu lles a diogelwch plant ac oedolion sy'n dod yn agored i niwed neu sydd mewn perygl. Fodd bynnag, roedd angen adnewyddu rhai gwiriadau diogelu.**

Gofal diogel

*Cyfleusterau clinigol*

Canfuom fod y practis wedi cymryd camau i helpu i ddiogelu iechyd, diogelwch a llesiant y staff a'r cleifion. Roedd y practis wedi ei gynnal yn dda yn gyffredinol i bob golwg, ac roedd yr ystafelloedd triniaeth yn lân, yn daclus ac yn drefnus yn gyffredinol. Fodd bynnag, gwnaethom nodi bod angen glanhau rhai ardaloedd o gwmpas ffenestri'r ystafelloedd triniaeth yn drwyadl.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Mae'n rhaid i'r practis weithredu a chynnal amserlen lanhau drwyadl yn yr ystafelloedd triniaeth.***

Gwnaethom nodi hefyd bod angen gwneud gwaith adfer i rai o’r cypyrddau yn yr ystafelloedd triniaeth ac roedd rhwyg ar ffabrig un gadair ddeintyddol a stôl.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Dylai'r practis wneud gwaith adfer i'r cypyrddau ac un gadair ddeintyddol a stôl.***

Gwelsom fod profion dyfeisiadau cludadwy wedi cael eu cynnal i helpu i sicrhau bod dyfeisiau trydanol bach yn cael eu defnyddio’n ddiogel yn y practis. Fodd bynnag, roedd angen diweddaru'r dystysgrif pum mlynedd ar gyfer gwifrau trydan yr adeilad.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Diweddaru'r dystysgrif pum mlynedd ar gyfer gwifrau trydan ac anfon copi at AGIC.***

Gwnaethom edrych ar yr asesiadau risg ar gyfer y Rheoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd (COSHH) a gweld bod taflenni data diogelwch wedi cael eu cadw ar gyfer pob sylwedd yn ogystal ag asesiadau risg priodol. Roedd eitemau COSHH yn cael eu cadw'n ddiogel. Roedd dogfennau contract ar waith ar gyfer cael gwared ar wastraff nad yw'n beryglus a gwastraff peryglus. Roedd cynwysyddion offer miniog yn cael eu storio'n ddiogel.

Roedd diffoddwyr tân ar gael ac wedi cael eu gwasanaethu yn y 12 mis diwethaf; roedd arwyddion tân ac asesiadau risg ac ymarferion tân yn amlwg. Fodd bynnag, dylai rheolwr y practis dderbyn cyngor pellach ynglŷn â chael mynediad at yr allanfa dân a leolir yn swyddfa'r staff.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Rhaid i'r practis geisio am gyngor gan arbenigwr diogelwch tân cymwys ynglŷn â drws yr allanfa dân.***

Roedd polisi iechyd a diogelwch, a gwelsom fod asesiadau risg amgylcheddol wedi cael eu cynnal. Fodd bynnag, dylid adolygu'r asesiadau risg amgylcheddol gan inni nodi risgiau posibl o fewn rhai agweddau o'r amgylchedd. Yn benodol, y rhain oedd y mannau storio a gwaith cadw tŷ yn yr ystafell ddadheintio, yr oedd angen eu hadolygu er mwyn gwneud y mwyaf o'r llif aer yn yr ystafell honno; problemau gwaith cadw tŷ a storio yn y cwpwrdd lle roedd meddyginiaeth yn cael ei storio; a pherygl baglu mewn un o'r ystafelloedd triniaeth.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Rhaid i'r practis adolygu a diweddaru'r asesiadau risg amgylcheddol a sicrhau bod yr holl risgiau o fewn yr amgylchedd yn cael eu nodi a'u rheoli'n briodol.***

*Rheoli heintiau*

Roeddem yn fodlon ar y trefniadau i amddiffyn staff a chleifion rhag heintiau ataliadwy cysylltiedig â gofal iechyd yn y practis deintyddol hwn. Mae hyn oherwydd inni weld tystiolaeth bod mesurau atal a rheoli heintiau ar waith. Roedd enghreifftiau'n cynnwys y canlynol:

- Ystafell bwrpasol ar gyfer glanhau a sterileiddio offer deintyddol
- Roedd cyfarpar diogelu personol megis menig tafladwy, ffedogau a chyfarpar diogelu llygaid ar gael ac yn cael ei ddefnyddio
- Sinc benodol i olchi dwylo
- Roedd y cyfarpar a oedd yn cael ei ddefnyddio ar gyfer glanhau a sterileiddio'r offerynnau mewn cyflwr da yn ôl pob golwg
- Roedd llyfrau cofnodion ar gyfer gwirio offer sterileiddio wedi cael eu cadw, gan gynnwys profion dyddiol
- Roedd offerynnau yn cael eu storio a'u cludo mewn modd priodol, ac roedd dyddiad ar eu pecynnau i ddangos erbyn pryd roedd yn rhaid eu defnyddio.

Roedd polisi rheoli dadheintio ar waith, a gwnaethom argymell y gallai hwn a pholisïau allweddol eraill gael eu harwyddo a'u dyddio gan y staff i gadarnhau eu bod wedi darllen polisïau allweddol.

Roedd y practis wedi cynnal archwiliad rheoli heintiau, yn unol â chanllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05[2] (WHTM 01-05), ac roedd y staff wedi cwblhau hyfforddiant diweddaru ym maes dadheintio bob pum mlynedd. Fodd bynnag, canfuom fod angen ystyried statws gwirio brechiadau

---

[2] http://www.wales.nhs.uk/sites3/docopen.cfm?orgid=254&id=232444

imiwneiddio ar gyfer tri deintydd a thair nyrs ddeintyddol. Rhaid cadw cofnodion o imiwnedd a sicrhau eu bod yn gyfredol a/neu fod tystiolaeth o imiwnedd gydol oes ar gael pan fo hynny'n berthnasol.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Dylid cynnal gwiriadau o frechiadau imiwneiddio a chadw cofnodion a/neu gadw cofnodion o imiwnedd gydol oes yn y practis.***

*Cyffuriau a ddefnyddir mewn achos brys a chyfarpar dadebru*

Roedd cyfarpar dadebru a chyffuriau brys ar gael yn y practis, ac roedd systemau ar waith i helpu i sicrhau eu bod yn ddiogel i'w defnyddio pe bai argyfwng claf (llewyg). Roedd polisi dadebru ar waith a oedd yn cynnwys swyddogaethau a chyfrifoldebau'r staff.

Roedd cyffuriau a ddefnyddir mewn argyfwng wedi eu trefnu'n dda, gyda siartiau llif cynnal bywyd cyfatebol i'w defnyddio mewn argyfyngau penodol. Roedd cofnod o'r gwiriadau rheolaidd o gyffuriau brys yn cael ei gynnal. Roedd llyfr damweiniau priodol ar waith ac roedd taflenni damweiniau a gwblhawyd yn cael eu ffeilio'n ddiogel i gynnal safonau diogelu data.

Gwelsom gofnodion a oedd yn dangos bod staff wedi derbyn hyfforddiant ynghylch sut i ymdrin ag argyfyngau meddygol a sut i gyflawni dadebru cardio-pwlmonaidd. Fodd bynnag, roedd angen i un deintydd, un hylenydd ac un nyrs ddeintyddol gyflawni hyfforddiant gloywi mewn adfywio cardio-pwlmonaidd.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Mae angen i un deintydd, un hylenydd ac un nyrs ddeintyddol gyflawni hyfforddiant gloywi mewn adfywio cardio-pwlmonaidd.***

Roedd y practis wedi penodi swyddogion cymorth cyntaf yn y tîm a oedd wedi cwblhau'r hyfforddiant perthnasol ac roedd pecyn cymorth cyntaf ar gael. Rhoddir sylw i'r materion storio a chadw tŷ mewn perthynas â lle mae'r feddyginiaeth yn cael ei storio o dan y pennawd 'gofal diogel' uchod.

*Diogelu*

Roedd y practis wedi cymryd camau i hyrwyddo ac amddiffyn lles a diogelwch plant ac oedolion sy'n agored i niwed neu a allai fod mewn perygl. Mae hyn oherwydd bod polisïau amddiffyn priodol ar waith, ac roedd yr hyfforddiant diogelu yn gyfredol ar gyfer yr holl aelodau staff perthnasol. Dywedwyd wrthym fod trefniadau ar waith er mwyn i staff leisio unrhyw bryderon, a dywedodd staff

wrthym eu bod yn teimlo y gallent wneud hyn mewn gwirionedd. Dywedwyd wrthym fod gwiriadau cyn cyflogaeth yn cael eu cynnal ar gyfer unrhyw aelodau o staff newydd cyn iddynt ymuno â'r practis, gan gynnwys gwiriadau clirio gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Fodd bynnag, roedd angen adnewyddu gwiriadau clirio bob tair blynedd y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar gyfer tri deintydd.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Mae angen i wiriadau diogelu'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd gael eu diweddaru ar gyfer tri deintydd.***

*Offer radiograffeg*

Gwelsom fod yr amgylchedd wedi cael ei gynllunio a'i drefnu i sicrhau bod offer ymbelydredd yn cael eu defnyddio'n ddiogel. Fodd bynnag, gwnaethom argymell y dylai'r practis adolygu lleoliad un o'r switshis radioleg i sicrhau ei fod wedi'i leoli'n yn ddiogel.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Rhaid i'r practis ofyn am gyngor ynghylch y switsh radioleg a nodwyd, er mwyn sicrhau ei fod wedi'i leoli'n ddiogel.***

Gwelsom ddogfennaeth a oedd yn dangos bod y peiriannau pelydr-X wedi cael eu gwasanaethu’n rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn ddiogel i'w defnyddio. Roedd y practis yn cwblhau archwiliadau radiograffig at ddibenion sicrhau ansawdd.

Canfuom fod y rhan fwyaf o'r staff sydd ynghlwm wrth dynnu radiograffau wedi cwblhau'r hyfforddiant gofynnol, yn unol â gofynion y Cyngor Deintyddol Cyffredinol[3] a Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000. Fodd bynnag, roedd angen i un deintydd gwblhau hyfforddiant gloywi yn y maes hwn, ac roedd dyddiad eisoes wedi cael ei drefnu ar gyfer yr hyfforddiant hwn ym mis Ionawr 2017. Roedd angen trefnu hyfforddiant gloywi ar gyfer dau hylenydd a dwy nyrs ddeintyddol hefyd.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

---

[3] Cyngor Deintyddol Cyffredinol – http://www.gdc-uk.org/Pages/default.aspx

***Mae angen trefnu sesiynau diweddaru hyfforddiant mewn amddiffyn rhag ymbelydredd ar gyfer y staff yn unol â gofynion y Cyngor Deintyddol Cyffredinol a Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000.***

*Cofnodion cleifion*

Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion deintyddol a gwnaethom siarad ag un ymarferydd deintyddol ar ddiwrnod ein harolygiad. Ar y cyfan, canfuom fod y gwaith o gadw cofnodion a rhoi gofal i gleifion o ansawdd da.

Fodd bynnag, gwnaethom nodi bod angen gwella'r meysydd canlynol:

- Nid oedd hanesion meddygol yn cael eu cydlofnodi gan y deintydd na'r claf yn gyson. Nid oedd system glir er mwyn eu diweddaru.
- Nid oedd cyngor ynglŷn â rhoi'r gorau i ysmygu na sgrinio am ganser y geg yn cael ei gofnodi'n gyson.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Dylid gwneud y gwelliannau canlynol i'r broses o gadw nodiadau cleifion, gan gynnwys cadw cofnodion cywir a chyson ynglŷn â'r canlynol:***

- ***Hanesion meddygol a diweddariadau***
- ***Cyngor am roi'r gorau i ysmygu a sgrinio am ganser y geg***

**<u>Gofal effeithiol</u>**

Mae cleifion yn elwa ar bractis sy'n ceisio gwella'r gwasanaeth a ddarperir yn barhaus. Gwelsom fod y practis yn cynnal rhai archwiliadau perthnasol, gan gynnwys rheoli heintiau.

Nid oedd trefniadau ffurfiol ar waith er mwyn i staff gynnal archwiliadau adolygu gan gymheiriaid gyda'i gilydd yn rheolaidd. Gwnaethom hysbysu'r practis bod dysgu trwy adolygiadau gan gymheiriaid ac archwiliadau'n helpu i sicrhau ansawdd y gofal a ddarperir. Gwnaethom drafod amrywiaeth o destunau archwilio a ddarperir gan Ddeoniaeth Cymru, a dywedodd rheolwr y practis wrthym ei fod wedi ystyried trefnu amser er mwyn i staff gynnal archwiliadau fel tîm.

***Yr hyn y mae angen ei wella***

***Dylai'r practis ffurfioli'r trefniadau ar gyfer sicrhau ansawdd, gan gynnwys archwiliadau adolygu rheolaidd gan gymheiriaid, fel ffordd o gynyddu'r***

***hyn a ddysgir, rhannu arfer gorau, a helpu i sicrhau ansawdd y gofal a ddarperir.***

## *Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth*

**Gwelsom dystiolaeth o reolaeth ac arweinyddiaeth effeithiol yn y practis hwn. Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw'n hapus yn eu swyddi, yn deall eu cyfrifoldebau, ac yn teimlo eu bod yn cael cefnogaeth gan reolwr y practis. Roedd amrywiaeth o bolisïau a gweithdrefnau perthnasol ar waith.**

Gwelsom fod y ddeintyddfa'n cael ei rhedeg yn dda. Roeddem yn gallu cadarnhau'r trefniadau hynny trwy edrych ar amrywiaeth o gofnodion a pholisïau, a thrwy drafodaethau ag aelodau o'r tîm deintyddol. Dywedwyd wrthym fod trefniadau ar waith er mwyn i staff leisio unrhyw bryderon, a dywedodd staff wrthym eu bod yn teimlo y gallent wneud hyn mewn gwirionedd. Gwelsom fod gwiriadau cyn cyflogaeth yn cael eu cynnal ar gyfer unrhyw aelodau newydd o staff cyn iddynt ymuno â'r practis, gan gynnwys cael eu clirio gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.

Rheolwr y practis oedd yn gyfrifol am reoli'r practis o ddydd i ddydd. Roedd y practis wedi cael ei gaffael gan Oasis Dental Ltd yn y blynyddoedd diweddar, a dywedwyd wrthym am y gwelliannau a oedd wedi'u gwneud i'r amgylchedd/cyfleusterau, a hefyd i'r trefniadau rheoli.

Gwelsom dîm o staff wrth eu gwaith a oedd i'w gweld yn hapus ac yn gymwys i gyflawni eu rolau. Dywedodd y staff y gwnaethom siarad â nhw wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi gan reolwr y practis. Dywedodd staff wrthym eu bod yn gallu cael hyfforddiant perthnasol i'w swydd a'u datblygiad proffesiynol parhaus.

Gwnaethom gadarnhau bod yr holl staff perthnasol wedi eu cofrestru â'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol. Yn unol â'r rheoliadau ar gyfer deintyddiaeth breifat, roedd pob deintydd a oedd yn darparu triniaeth breifat wedi'i gofrestru gydag AGIC, ac roedd eu tystysgrifau cofrestru ar gael yn y practis.

Dywedodd rheolwr y practis fod arfarniadau wedi cael eu cynnal ar gyfer y staff. Gwelsom fod systemau ar waith i sicrhau bod unrhyw staff newydd yn derbyn hyfforddiant ymsefydlu a'u bod yn ymwybodol o bolisïau a gweithdrefnau'r practis.

Gwnaethom edrych ar y polisïau a'r gweithdrefnau a oedd ar waith, a gweld tystiolaeth eu bod wedi cael eu hadolygu yn rheolaidd a'u bod yn drefnus. Dywedwyd wrthym fod cyfarfodydd staff yn cael eu cynnal yn rheolaidd, a bod y rhain yn cael eu cofnodi.

## 5. Y Camau Nesaf

Mae'r arolygiad hwn wedi arwain at yr angen i’r practis deintyddol gwblhau cynllun gwella (Atodiad A) i fynd i’r afael â chanfyddiadau allweddol yr arolygiad.

Dylai’r cynllun gwella nodi’n eglur pryd a sut y byddai'r canfyddiadau a nodwyd yn Smiles Oasis Dental Care yn derbyn sylw, gan gynnwys amserlenni.

Mae angen i’r cam(au) a gymerir gan y practis mewn ymateb i’r problemau a nodir yn y cynllun gwella fod yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi’u hamseru. Yn gyffredinol, dylai’r cynllun fod yn ddigon manwl i roi sicrwydd digonol i AGIC ynglŷn â’r materion a drafodir ynddo.

Pan fydd camau yng nghynllun gwella’r practis yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, dylai’r practis roi’r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi cael sylw.

Bydd y cynllun gwella, unwaith y cytunir arno, yn cael ei gyhoeddi ar wefan AGIC, ac fe gaiff ei werthuso fel rhan o’r broses arolygu deintyddol barhaus.

## 6. Methodoleg

Mae'r Safonau Iechyd a Gofal newydd (gweler Ffigur 1) wrth graidd dull AGIC o gynnal arolygiadau yn y GIG yng Nghymru. Bwriedir i'r saith thema weithio gyda'i gilydd. Gyda'i gilydd maent yn disgrifio sut y mae gwasanaeth yn darparu gofal o ansawdd uchel, diogel a dibynadwy sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Mae'r safonau'n allweddol i'r dyfarniadau yr ydym yn eu gwneud am ansawdd, diogelwch ac effeithiolrwydd y gwasanaethau a ddarperir i gleifion.

**Ffigur 1: Safonau Iechyd a Gofal**




Bydd unrhyw ddeintydd sy'n gweithio yn y practis sydd wedi'i gofrestru ag AGIC i ddarparu deintyddiaeth breifat hefyd yn ddarostyngedig i ddarpariaethau Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008[4] a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011.[5] Lle bo hynny'n briodol, rydym yn ystyried sut mae'r practis yn bodloni'r rheoliadau hyn, yn ogystal â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 1999, Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol)

[4] http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2008/1976/contents/made

[5] http://www.legislation.gov.uk/cy/wsi/2011/2686/contents/made

2000, ac unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol perthnasol eraill, megis Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom adolygu dogfennau a gwybodaeth o nifer o ffynonellau, gan gynnwys:

- Gwybodaeth a gedwir gan AGIC
- Cyfweliadau â staff gan gynnwys deintyddion a staff gweinyddol
- Trafodaethau â staff nyrsio
- Archwilio sampl o gofnodion deintyddol cleifion
- Archwilio polisïau a gweithdrefnau'r practis
- Archwilio offer a'r safle
- Gwybodaeth yn nhaflen wybodaeth y practis ac ar ei wefan (pan fo hynny'n berthnasol)
- Holiaduron cleifion AGIC.

Rydym yn cynnig trosolwg o'n prif ganfyddiadau i gynrychiolwyr y practis deintyddol ar ddiwedd pob arolygiad er mwyn sicrhau eu bod yn derbyn adborth priodol.

Tynnir sylw'r practis deintyddol a'r bwrdd iechyd lleol at unrhyw bryderon brys sy'n codi o arolygiadau deintyddol trwy lythyr gweithredu ar unwaith. Bydd unrhyw ganfyddiadau o'r fath yn cael eu nodi, ynghyd ag unrhyw argymhellion eraill a wneir, yn Atodiad A'r adroddiad arolygu.

Mae arolygiadau deintyddol yn cynnig cipolwg o'r modd y gweithredwyd safonau yn y practis ar ddiwrnod yr arolygiad.

*Atodiad A*

## Practis Deintyddol Cyffredinol:Cynllun Gwella

## Practis: Smiles Oasis Dental Care

## Dyddiad yr Arolygiad: 24 Tachwedd 2016

| Rhif y Dudalen | Yr Hyn y Mae Angen ei Wella | Rheoliad / Safon | Camau Gweithredu'r Practis | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| **Ansawdd Profiad y Claf** | | | | | |
| 7 | Rhaid i'r staff adolygu gwefan y practis i sicrhau bod yr wybodaeth ddiweddaraf gan gleifion yn unol â chanllawiau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer hysbysebu. | Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008<br>14 (1) (b)<br>*Y Cyngor Deintyddol Cyffredinol, Canllawiau Hysbysebu* | | | |
| **Cyflenwi Gofal Diogel ac Effeithiol** | | | | | |

| **Rhif y Dudalen** | **Yr Hyn y Mae Angen ei Wella** | **Rheoliad / Safon** | **Camau Gweithredu'r Practis** | **Swyddog Cyfrifol** | **Amserlen** |
|---|---|---|---|---|---|
| 8 | Mae'n rhaid i'r practis weithredu a chynnal amserlen lanhau drwyadl yn yr ystafelloedd triniaeth. | Safonau Iechyd a Gofal 2.4<br>Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008<br>14 (1) (d) a 14 (6)<br>*Rheoliadau'r Gweithle (Iechyd, Diogelwch a Lles) 1992* | | | |
| 9 | Dylai'r practis wneud gwaith adfer i'r cypyrddau ac un gadair ddeintyddol a stôl. | Safonau Iechyd a Gofal<br>2.9<br>Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008<br>14 (1) (b) a (d) a | | | |

| Rhif y Dudalen | Yr Hyn y Mae Angen ei Wella | Rheoliad / Safon | Camau Gweithredu'r Practis | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| | | 14 (6)<br>*Rheoliadau'r Gweithle (Iechyd, Diogelwch a Lles) 1992* | | | |
| 9 | Diweddaru'r dystysgrif pum mlynedd ar gyfer gwifrau trydan ac anfon copi at AGIC. | Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008<br>14 (1) (b) a (d)<br>*Rheoliadau Trydan yn y Gweithle 1989 (Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch)* | | | |
| 9 | Rhaid i'r practis geisio am gyngor gan arbenigwr diogelwch tân cymwys ynglŷn â drws yr allanfa dân. | Safonau Iechyd a Gofal 2.1;<br>Gorchymyn Diwygio | | | |

| Rhif y Dudalen | Yr Hyn y Mae Angen ei Wella | Rheoliad / Safon | Camau Gweithredu'r Practis | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| | | Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005 | | | |
| 9 | Rhaid i'r practis adolygu a diweddaru'r asesiadau risg amgylcheddol a sicrhau bod yr holl risgiau o fewn yr amgylchedd yn cael eu nodi a'u rheoli'n briodol. | Safonau Iechyd a Gofal 2.1<br>Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008<br>14 (1) (b)<br>*Rheoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gweithle 1999* | | | |
| 11 | Dylid cynnal gwiriadau o frechiadau imiwneiddio a chadw cofnodion a/neu gadw cofnodion o imiwnedd gydol oes yn y practis. | Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008<br>14 (1) (b) a 14 (6)<br>*Y Cyngor Deintyddol Cyffredinol –* | | | . |

| Rhif y Dudalen | Yr Hyn y Mae Angen ei Wella | Rheoliad / Safon | Camau Gweithredu’r Practis | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| | | *Safon Arweiniad 1.5.2* | | | |
| 11 | Mae angen i un deintydd, un hylenydd ac un nyrs ddeintyddol gyflawni hyfforddiant gloywi mewn adfywio cardio-pwlmonaidd. | Safonau Iechyd a Gofal 7.1<br>Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008<br>14 (1) (b)<br>*Y Cyngor Deintyddol Cyffredinol – Safon Arweiniad 1.5.3* | | | |
| 12 | Mae angen i wiriadau diogelu'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd gael eu diweddaru ar gyfer tri deintydd. | Safonau Iechyd a Gofal 7.1<br>Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008<br>13.2 | | | |
| 12 | Rhaid i'r practis ofyn am gyngor | Safonau Iechyd | | | |

| Rhif y Dudalen | Yr Hyn y Mae Angen ei Wella | Rheoliad / Safon | Camau Gweithredu'r Practis | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| | ynghylch y switsh radioleg a nodwyd, er mwyn sicrhau ei fod wedi'i leoli'n ddiogel. | a Gofal<br>Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008<br>14 (1) (b)<br>*Y Cyngor Deintyddol Cyffredinol a Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000* | | | |
| 12 | Mae angen trefnu sesiynau diweddaru hyfforddiant mewn amddiffyn rhag ymbelydredd ar gyfer y staff yn unol â gofynion y Cyngor Deintyddol Cyffredinol a Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000. | Safonau Iechyd a Gofal 2.9<br>Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008<br>14 (1) (b) | | | |

| Rhif y Dudalen | Yr Hyn y Mae Angen ei Wella | Rheoliad / Safon | Camau Gweithredu'r Practis | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| | | *Y Cyngor Deintyddol Cyffredinol a Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000* | | | |
| 13 | Dylid gwneud y gwelliannau canlynol i'r broses o gadw nodiadau cleifion, gan gynnwys cadw cofnodion cywir a chyson ynglŷn â'r canlynol:<br>• Hanesion meddygol a diweddariadau<br>• Cyngor ynglŷn â rhoi'r gorau i ysmygu a sgrinio am ganser y geg | Safonau Iechyd a Gofal 3.3<br>Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008<br>14 (1) (b)<br>*Y Cyngor Deintyddol Cyffredinol – Safon Arweiniad 4* | | | |
| 13 | Dylai'r practis ffurfioli'r trefniadau ar | Safonau Iechyd | | | |

| Rhif y Dudalen | Yr Hyn y Mae Angen ei Wella | Rheoliad / Safon | Camau Gweithredu'r Practis | Swyddog Cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|
| | gyfer sicrhau ansawdd, gan gynnwys archwiliadau adolygu rheolaidd gan gymheiriaid, fel ffordd o gynyddu'r hyn a ddysgir, rhannu arfer gorau, a helpu i sicrhau ansawdd y gofal a ddarperir. | a Gofal 3.3<br>Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2008, Adran 16A (1) | | | |
| **Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth** | | | | | |
| | Dim | | | | |

## Cynrychiolydd y Practis:

**Enw (llythrennau bras):..............................................................................................**

**Teitl: ..............................................................................................**

**Dyddiad:..............................................................................................**